



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6
Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau
Adroddiad a Chynllun Strategol 2019***

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cydnabod ei gyfrifoldeb i ddiogelu ein hamgylchedd byd-eang drwy reoli ei bortffolio Ystadau er mwyn sicrhau bod y gofal iechyd gorau posibl yn cael ei ddarparu gyda'r lleiaf posibl o effaith negyddol ar ein hamgylchedd, bioamrywiaeth ac ecosystemau cysylltiedig.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi cyflwyno rhagor o ddyletswyddau'n ymwneud â bioamrywiaeth ac ecosystemau (Adran 6 y ddyletswydd) ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd sefydlu a gweithredu'r Cynllun Strategol angenrheidiol a'r rhaglenni cysylltiedig i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Mae eiddo Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) yn cynnwys ystod amrywiol o ysbytai, canolfannau iechyd, clinigau a gwahanol fathau eraill o eiddo fel a ganlyn:

Tabl 1: Crynodeb o Eiddo'r BIP

Disgrifiad o'r Eiddo	Enw'r Safle, Ysbyty
Ysbytai Aml-wasanaeth Mawr	Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Athrofaol Llandochoau
Ysbytai Cymunedol	Ysbyty Dewi Sant, Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Ysbyty'r Barri
Ysbytai Arbenigol	Ysbyty Rookwood
Cyfleusterau Cleifion a Chefnogi Cymunedol	34 safle

Mae arwynebedd llawr yr holl Ysbytai Aml-wasanaeth Mawr a'r Ysbytai Cymunedol yn cyfateb i dros 80% o gyfanswm yr Ystâd ac felly hwy fydd yn cael yr effaith fwyaf sylweddol yn amgylcheddol ac o ran bioamrywiaeth o gymharu â gweddill yr Ystâd.

Hefyd, mae gan y safleoedd hyn weithgarwch gweithredol sylweddol ac felly hwy fydd â'r potensial mwyaf o ran effaith ar fioamrywiaeth.

Dyletswydd a Chyfrifoldebau'r BIP

O dan 'Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1, Canllawiau ar gyfer Adran 6 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, Canllawiau ar Adrodd' mae'r BIP wedi'i gategoreiddio o dan Grŵp 3 ar gyfer y math o sefydliad a gweithrediadau Adran 6. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth lle bynnag bo hynny'n bosibl o fewn gweithrediad cywir ei swyddogaethau.

Sefydliadau Grŵp 3 yw'r rheini sy'n '*sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir y tu hwnt i'w tir eu hunain, waeth a yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir ai peidio*'.

Mae'r camau sydd angen eu cymryd i fodloni cyfrifoldebau Sefydliad Grŵp 3 yn cynnwys:

- Rheoli adeiladau
- Caffael
- Cynaliadwyedd
- Codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant
- Rheoli tir er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Manteision bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yn rhoi ystod o fanteision yn bersonol, i'r gymdeithas a busnesau:

- **Byd-eang** - *Diogelu a hybu bywyd gwylt, cynefinoedd naturiol ac ecosystemau a gwyrddoi (lle bo hynny'n bosibl) ddifrod a diraddiad bioamrywiaeth.*
- **Personol a Chymdeithasol** – *Mae bioamrywiaeth iach yn hybu cymdogaeth a diwylliannau cymdeithasol iach.*
- **Iechyd a Lles** - *Bydd darparu gofal iechyd gyda'r effaith lleiaf posibl ar fioamrywiaeth yn gwella lles cleifion, ymwelwyr a staff. Mae cynefinoedd iach a bwyd gwylt yn darparu amodau amgylcheddol i gefnogi iechyd a lles a bydd felly'n cynorthwyo adferiad cleifion. Dangoswyd bod mynediad at ofodau gwyrdd yn cynorthwyo lles.*
- **Busnes a Chyllid** - *Mae rheoli bioamrywiaeth yn arwain at reoli effeithiol ac effeithlon y Portffolio Ystadau a delwedd gadarnhaol o ran enw da.*

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn nodi'r 7 nod canlynol (Ffigur 1, isod). Bydd gwella a chynnal bioamrywiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar nifer o'r nodau hyn, sydd wedi'u mapio isod.



Datganiad o Effaith – Sut mae'r BIP yn cael effaith ar fioamrywiaeth

Mae'r BIP yn cael effaith ar fioamrywiaeth yn y meysydd allweddol canlynol, sydd wedi'u mapio i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Tabl 2 - Crynodeb o effeithiau'r BIP ar fioamrywiaeth

Disgrifiad	Disgrifiad o'r effaith	Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Caffael	Prynu, gwneud, cyflenwi a chludo nwyddau a deunyddiau i'r BIP.	<ul style="list-style-type: none"> • Cymru lewyrchus • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Rheoli egni ac allyriadau	Mae allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn effeithio ar ansawdd aer a bioamrywiaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Cymru lewyrchus • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang • Cymru gydnerth • Cymru iachach
Dŵr a gwaredu carthffrwd	Mae defnydd dŵr, triniaethau dŵr a gwaredu carthffrwd i ddraen yn effeithio ar fioamrywiaeth seiliedig ar ddŵr. Mae hyn yn cynnwys dŵr glaw a systemau carthffosiaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Cymru lewyrchus • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang • Cymru gydnerth • Cymru iachach
Rheoli gwastraff	Bydd creu, rheoli, ailgylchu a gwaredu gwastraff yn effeithio'n uniongyrchol ar fioamrywiaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Cymru lewyrchus • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang • Cymru gydnerth • Cymru iachach
Teithio a thrafnidiaeth gynaliadwy	Bydd rheoli traffig, defnydd y BIP o gerbydau a dewisiadau teithio cynaliadwy yn cael effaith uniongyrchol ar fioamrywiaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Cymru lewyrchus • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang • Cymru gydnerth • Cymru iachach
Rheoli tir	Bydd cynnal a chadw tiroedd, gerddi, llwybrau, ffyrdd a thoeon yn cael effaith uniongyrchol ar fioamrywiaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang • Cymru gydnerth

Byddwn yn gwreiddio ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu, cynnwys) yn ein dull ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth.

System Rheoli Amgylcheddol y BIP

Mae'r BIP yn gweithredu System Rheoli Amgylcheddol (EMS) ac mae wedi cyflawni Achrediad Safon Rhyngwladol ISO14001 a chaiff ei asesu'n allanol gan Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI).

Rheolir yr EMS drwy'r Bwrdd Gwasanaeth Ystadau a Chyfleusterau Cyfalaf (CEF) ac mae wedi sefydlu Grŵp Llywio Rheoli Amgylcheddol a Gadeirir gan Gyfarwyddwr y CEF. Mae'r aelodau yn cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol sy'n cael effaith/dylanwad ar Reoli Amgylcheddol yn cynnwys Byrddau Ystadau, Egni a Rheoli Gwastraff, Cyfleusterau a Clinigol.

Mae'r BIP hefyd yn gweithredu Polisi Rheoli Amgylcheddol trosfwaol sy'n cynnwys Egni, Dŵr a Rheoli Cynaliadwyedd. Rheolir a chymeradwyir hwn drwy'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, sy'n adrodd wrth y Bwrdd.


Bydd rheoli ac adrodd am fioamrywiaeth yn cael ei integreiddio i'r mecanwaith llywodraethu sy'n bodoli eisoes, gydag adroddiadau allweddol yn cael eu copïo i Grŵp Llywio Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y BIP er gwybodaeth a sicrwydd.

Rheoli bioamrywiaeth a phrosiectau

Ar hyn o bryd mae'r BIP yn cynnal y rhaglen ganlynol o weithgareddau a mentrau mewn perthynas â bioamrywiaeth a dyletswyddau Adran 6:

Tabl 3: Crynodeb o'r gweithgareddau a'r mentrau presennol.

Disgrifiad	Gweithgaredd	Cyfrifoldeb
Cynnal a chadw tiroedd, gerddi a llwybrau	Torri gwair, chwynnu, plannu a rheoli borderi / gerddi cwrt a thoeon sydd wedi'u hau (Hafan-y-Coed), codi sbwriel a dail.	Adran Ystadau
	Arolygon coed blynyddol a gynhelir yn ôl y galw a defnyddio contractwyr arbenigol i wneud gwaith cynnal a chadw coed.	Adran Ystadau
	Pwll Lakeside y BIP yn cael ei reoli a'i gynnal a'i gadw gan gontractwr arbenigol.	Adran Ystadau
	Rheoli bywyd gwyllt yn ôl yr angen drwy gontractwr arbenigol a defnydd mesurau difa pla priodol.	Adran Ystadau
Prosiectau cyfalaf	Datblygir a chynllunir Cynlluniau Cyfalaf yn unol â safonau a chanllawiau bioamrywiaeth perthnasol sy'n cynnwys: Aseidiadau BREAAAM, Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SABS), Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS) ac ati	Cynllunio Cyfalaf
Prosiectau bioamrywiaeth gofodau gwyrdd	Mae'r BIP wedi/yn cynnal ystod o brosiectau'n ymwneud â gweithredu ar 'ofodau gwyrdd' yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Ystod o fentrau bywyd gwyllt yn cynnwys cyfarpar bwydo adar, bath adar a gwesty pryfed yn Ysbyty Rookwood, blychau adar ar safle Ysbyty Athrofaol Landochau. Rydym yn archwilio'r 	Elusen Celfyddydau ac Iechyd

	<p>syniad o gyflwyno cartrefi i ddraenogod yn Ein Perllan, YALI.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno gweirglodd bywyd gwyllt yn Ysbyty'r Barri. • Cyflwyno cychod gwenyn ar do Adeilad Cochrane yn YAC ac Uned Llanfair yn YALI. • Archwilio'r syniad o ddefnyddio'r gofod gwyrdd yng Nghanolfan Pentywyn drwy'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol fel ardal fechan ar gyfer tyfu. • Ardal wedi'i phlannu'n rhannol naturiol fydd Ein Perllan sydd wedi'i neilltuo ar gyfer diogelu planhigion a bywyd gwyllt. Mae'n cynnwys 7 erw o dir pori rhannol wledig a choetir sy'n llunio rhan o ystâd Ysbyty Athrofaol Landochau. 	
<p>Gweithgareddau ymwybyddiaeth</p>	<p>Enillodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro Fedal Arian a'r Gwely Blodeuo Gorau yn sioe RHS Caerdydd yn 2019.</p> 	<p>Elusen Celfyddydau ac Iechyd</p>

Adroddiad a Chynllun Gweithredu Strategol

Argymhellion cychwynnol rhagarweiniol

Er mwyn bodloni Dyletswyddau Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae'r argymhellion cychwynnol a'r camau gweithredu canlynol wedi'u hamlygu ar gyfer y BIP:

- **Comisiynu asesiad ac archwiliad bioamrywiaeth arbenigol**
 - Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio sefydliad arbenigol i asesu'r BIP mewn perthynas â gofynion dyletswyddau Adran 6 a datblygu argymhellion wedi'u blaenoriaethau a'u costio er mwyn sicrhau cydymffuriad.
 - Bydd yr astudiaeth yn rhoi dealltwriaeth lawn i'r BIP o'r bywyd gwyllt, ecosystemau a chynefinoedd sy'n bresennol ym mhorthfolio'r Ystadau gan gynnwys eu cyflwr a'u ffyniant.
 - Bydd yr asesiad ac archwiliad hefyd yn cynnwys dadansoddiad o unrhyw fylchau a nodi unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â graddiad Coch, Melyn, Gwyrdd.
- **Gwella ein Cynllun Gweithredu Strategol Bioamrywiaeth**
 - Bydd y BIP yn gwella ac yn datblygu ein gweithredoedd o ran bioamrywiaeth mewn ymateb i gasgliadau ac argymhellion yr asesiad ac archwiliad bioamrywiaeth. Yn ystod datblygiad y Cynllun Gweithredu Strategol Bioamrywiaeth gwell byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid, a bydd y Cynllun gwell yn cael ei gyhoeddi erbyn trydydd chwarter 2020/21
- **Trefniadau llywodraethu ac adarodd**
 - Bydd y BIP yn integreiddio'r prosesau llywodraethu ar gyfer rhoi'r ddyletswydd bioamrywiaeth ar waith i'r System Rheoli Amgylcheddol bresennol. Bydd y trefniadau yn cynnwys y strwythur adrodd, rolau, cyfrifoldebau ac adnoddau i gyflawni nodau ac amcanion y Cynllun.

Camau penodol i fynd i'r afael ag amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Bydd yr ymatebion canlynol i chwe amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) yn cael eu haddasu a'u mireinio yng ngoleuni casgliadau ac argymhellion yr asesiad ac archwiliad bioamrywiaeth.

Amcan 1 CGAN: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel

Bydd y BIP yn sefydlu'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd a rhanddeiliaid cysylltiedig yn cyfranogi'n llawn ac yn gwreiddio bioamrywiaeth drwy'r gwaith gwneud penderfyniadau priodol yn gyfan.

Cyflawnir hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Cyfrifoldeb y Grŵp Llywio Rheoli Amgylcheddol (EMSG) fydd y Cynllun Gweithredu Strategol Bioamrywiaeth a'i reolaeth ac fe'i cynhwysir fel rhan o System Rheoli Amgylcheddol y BIP.
- Diffinnir rolau a chyfrifoldebau fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Strategol Bioamrywiaeth.
- Pan fo angen, sefydlir Grwpiau Gorchwyl a Gorffen penodol i gynnal prosiectau bioamrywiaeth a'r meysydd gwaith/astudiaeth y canolbwyntir arnynt.
- Datblygir nodau'r Cynllun yn amcanion CAMPUS ar gyfer pob un o amcanion y CGAN a'u hintegreiddio fel sy'n briodol i amcanion adrannol corfforaethol a lleol.
- Bydd cynlluniau gweithredu blynyddol yn cael eu datblygu gyda'r amserlenni, adnoddau ac arweinwyr angenrheidiol ar gyfer pob cam gweithredu.
- Darperir sesiynau ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant i aelodau staff priodol.
- Sefydlir proses monitro ac adolygu drwy'r EMSG er mwyn mynd i'r afael a monitro cynnydd y cynllun gweithredu (rhagor o fanylion yn Amcan 5).

Amcan 2 CGAN: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well

Er mwyn bodloni gofynion yr amcan hwn cymerir y camau canlynol:

- Nodi statws presennol rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf sy'n bresennol yn y portffolio Ystadau.
- Nodi a blaenoriaethu gofynion y cynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf.
- Datblygu a rhoi ar waith gynllun gweithredu effeithiol, ymarferol ac effeithlon o ran cost/adnoddau fel y gellir cyflawni'r gofynion sydd wedi'u blaenoriaethu.
- Bydd y Cynllun Gweithredu Strategol yn cynnwys cydbwysedd rhwng diogelu a hybu rhywogaethau ac osgoi bod gwasanaethau'r BIP yn cael eu heffeithio/herio gan bresenoldeb y rhywogaethau hyn e.e. wiwerod, llygod Ffrengig, llygod, gwylanod, colomennod ac ati.
- Bydd y BIP yn ymateb i argymhellion y Datganiad Ardal sy'n cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg pan y'i cyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Amcan 3 CGAN: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

Er mwyn bodloni gofynion yr amcan hwn cymerir y camau canlynol:

- Nodi statws ac 'iechyd', rhwydweithiau cysylltiedig a lefel diraddiad a/neu ffyniant a thwf presennol cynefinoedd y BIP.
- Nodi a blaenoriaethu gofynion y cynefinoedd y mae'r brys mwyaf i'w cynorthwyo a'u cefnogi.
- Datblygu a rhoi ar waith gynllun gweithredu effeithiol, ymarferol ac effeithlon o ran cost/adnoddau er mwyn galluogi i'r gofynion sydd wedi'u blaenoriaethu gael eu cyflawni.

- Bydd y Cynllun Gweithredu yn cynnwys cydbwysedd rhwng diogelu a hybu cynefinoedd ac osgoi bod gwasanaethau'r BIP yn cael eu heffeithio/herio gan bresenoldeb y rhywogaethau hyn e.e. iechyd a diogelwch, atal a rheoli heintiau ac ati

Amcan 4 CGAN: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

Cyflawnir y gofynion hyn drwy'r camau gweithredu a geir yn Amcanion 2 a 3.

Amcan 5 CGAN: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

Bydd y BIP yn cyflawni hyn drwy'r camau gweithredu canlynol:

- Nodi gwybodaeth a data sydd angen eu casglu a'u coladu mewn perthynas â bioamrywiaeth.
- Sefydlu rhaglen ar gyfer monitro bioamrywiaeth er mwyn cyflwyno'r wybodaeth a'r data a gofnodir.
- Sefydlu a rhoi ar waith y mecanweithiau canlynol o ran adrodd:
 1. Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro perfformiad a chynnydd bioamrywiaeth.
 2. Canfod tueddiadau a phroffiliau parthed bioamrywiaeth.
 3. Cynnal gwaith o feincnodi bioamrywiaeth lle bo hynny'n bosibl.
 4. Integreiddio canfyddiadau i gynlluniau gweithredu gwella parhaus.
- Sefydlu proses adrodd fel mater o drefn i adrodd ar berfformiad bioamrywiaeth wrth y Grŵp Llywio Rheoli Amgylcheddol, fforymau cysylltiedig ac amlygu perfformiad yn adroddiad Cynaliadwyedd blynyddol y BIP.
- Cynnwys bioamrywiaeth yn yr archwiliadau ISO14001 gyda'r BSI.
- Rhoi ar waith raglen o fentrau ymwybyddiaeth a hyfforddiant bioamrywiaeth ar gyfer staff allweddol sydd â rolau a chyfrifoldebau am fioamrywiaeth.
- Amlygu perfformiad, cynnydd a chyflawniadau o ran bioamrywiaeth drwy'r BIP yn gyfan gan ddefnyddio llwybrau cyfathrebu priodol.

Amcan 6 CGAN: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Cyflawnir y gofynion hyn drwy'r camau gweithredu a geir yn Amcanion 1 a 5.

17 Rhagfyr 2019